| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR BLYNYDDOL** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI, 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **ADOLYGIAD O'R DREFN EILYDDIO I BWYLLGORAU** |
| **PWRPAS** | **Adolygu'r Drefn Eilyddio i Bwyllgorau yn dilyn 12 mis o'i weithredu** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyfyngu'r Drefn Eilyddio i'r Pwyllgor Cynllunio** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd yr egwyddor o benodi eilyddion ar gyfer pwyllgorau gan y Cyngor yn ei gyfarfod dyddiedig 21 Ionawr, 2010, a chyfeiriwyd y mater i'r Prif Bwyllgor Craffu ystyried opsiynau posib ar gyfer gweithredu'r drefn.

1.2 Cyfarfu'r Prif Bwyllgor Craffu ar 23 Ebrill, 2010 a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor fel a ganlyn:-

*"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor fel a ganlyn parthed mabwysiadu trefn eilyddion i bwyllgorau ac is-bwyllgorau ac adolygu'r sefyllfa ymhen 12 mis:-*
*a. Y dylid eithrio'r Bwrdd, y Pwyllgorau Ardal, y Pwyllgor Pensiynau, y Pwyllgor Trwyddedu, y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol a gweithgorau o'r drefn eilyddio.*
*b. Gofyn i bob grŵp enwebu un aelod ychwanegol ar gyfer pob pwyllgor wrth sefydlu aelodaeth pwyllgorau ar ddechrau blwyddyn a bod eilyddion yn derbyn rhaglenni pwyllgorau, cyn belled ac nad yw hynny ar gost ychwanegol i'r Cyngor.*
*c. Bod aelod sefydlog sy'n methu bod yn bresennol mewn cyfarfod yn rhoi gwybod i'r cadeirydd drwy e-bost neu alwad ffôn ymlaen llaw cyn y cyfarfod bod yr eilydd yn dirprwyo iddo/i yn y cyfarfod hwnnw.*
*ch. Na ddylid cyfyngu gweithrediad y drefn i amgylchiadau arbennig a gadael hyn i ddisgresiwn yr aelod*
*d. Bod eilydd sy'n cymryd sedd aelod sefydlog ar bwyllgor yn eilyddio am y cyfarfod cyfan ac na chaniateir cyfnewid sedd gyda'r aelod sefydlog yng nghanol y cyfarfod."*

1.3 Cyfeiriwyd y mater i'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2010 a chymeradwywyd argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu.

## 2 GWEITHREDIAD

2.1 Yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor gofynnwyd i'r grwpiau gwleidyddol enwebu un aelod i fod yn eilydd ar y 12 pwyllgor oedd yn disgyn o fewn y drefn eilyddio i bwyllgorau.

2.2. Ar y cyfan sâl iawn fu'r ymateb, gyda dim ond un grŵp gwleidyddol yn cyflwyno enwau eilyddion ar gyfer pob pwyllgor o fewn y drefn eilyddio, sef y Grŵp

Democratiaid Rhyddfrydol.

2.3 Enwebwyd aelodau o'r Grŵp Annibynnol ar 50% o'r pwyllgorau (6 /12), tra 16.6% oedd canran yr enwebiadau ar gyfer Plaid Cymru a Llais Gwynedd (2/12) a 14.3% ar gyfer y Grŵp Llafur (1/7).

2.4 Yr unig bwyllgor lle mae pob grŵp wedi enwebu aelod wrth gefn yw'r Pwyllgor Cynllunio.

## 3 GWAITH YMCHWIL

3.1 Roedd y drefn eilyddio yn berthnasol i 56 cyfarfod rhwng Mai 2010 a diwedd Mawrth 2011, a derbyniwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r pwyllgorau mewn 43 o'r cyfarfodydd; ond defnyddiwyd y drefn eilyddio 8 gwaith yn unig.

3.2 Ni ddefnyddiwyd y drefn eilyddio gan Grŵp Plaid Cymru.

3.3 Yn ystod y cyfnod bu i'r Grŵp Annibynnol a'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol eilyddio ddwywaith i'r Pwyllgor Cynllunio, tra bu i'r Grŵp Llafur eilyddio unwaith i'r Pwyllgor Cynllunio.

3.4 Bu i Grŵp Llais Gwynedd eilyddio ddwywaith i Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a defnyddiwyd y drefn eilyddio i'r Pwyllgor Craffu Datblygu unwaith gan y Grŵp Annibynnol.

3.5 Ymgynghorwyd ag Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a barn y mwyafrif oedd bod angen diwygio'r drefn ac mae'r ffordd ymlaen mwyaf effeithlon oedd cyfyngu'r drefn i'r Pwyllgor Cynllunio. Roedd Grŵp Llais Gwynedd yn gwrthwynebu'r bwriad i ddiwygio'r drefn eilyddio.

## 4 PRIF BWYLLGOR CRAFFU

4.1 Cyflwynwyd adroddiad i'r Prif Bwyllgor Craffu ar ganlyniadau'r adolygiad o'r drefn eilyddio i bwyllgor ar 19 Ebrill, 2011.

4.2 Penderfyniad y pwyllgor oedd argymell i'r Cyngor bod y drefn eilyddio i bwyllgorau yn cael ei chyfyngu i'r Pwyllgor Cynllunio yn unig, a bod y drefn newydd yn dod yn weithredol ar ddechrau'r flwyddyn ym mis Mai 2011.

## 5 ARGYMHELLIAD.

5.1 Gofynnir i'r Cyngor :-

i. mabwysiadu trefn eilyddio i bwyllgorau sydd yn cael ei chyfyngu i'r Pwyllgor Cynllunio yn unig a bod y drefn yn cael ei weithredu yn syth.

ii. awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau priodol i reol gweithdrefn 30 - Penodi Eilyddion i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau.